# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach Rhithiol, Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022 am 2.00 pm i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2 2021 - 2022 (Tudalennau 3 - 34)**

**4. Gwasanaethau y Canolfannau Lles - Cynigion Hyrwyddo (Tudalennau 35 - 38)**

**5. Cadarnau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi ohonynt (Tudalennau 39 - 42)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **DYDDIAD:** | **15 Mawrth 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Siambr y Cyngor, Penmorfa** |
| **TEITL:** | **Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion)** |
| | **ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL CHWARTER 2 2021 – 2022** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod ail chwarter 2021/2022. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol a'r Aelodau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol. |

**CEFNDIR:**

Atodir Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 2 2021/2022.

Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol er mwyn derbyn cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS

Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal Amlasiantaethol sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn.

Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant a Diwylliant, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter.

**CRYNODEB O'R PWYNTIAU ALLWEDDOL:**

- Ar ddiwedd y chwarter hwn, o 30 Medi 2021 ymlaen, roedd 91 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn gynnydd o 2 yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Ar ddiwedd Chwarter 1, roedd 89 o blant yn derbyn gofal.
- Cafodd 48 o blant eu hadolygu yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â 67 yn y chwarter blaenorol. Cafodd 97.9% eu hadolygu o fewn y terfyn amser statudol o'i gymharu â 98.5% yn Chwarter 1.
- Roedd 3 o blant wedi gadael gofal yn y chwarter hwn o'i gymharu â 5 yn Chwarter 1. Aeth pob un o'r 3 plentyn i ddarpariaethau Byw'n Annibynnol.
- Roedd y ddarpariaeth leoli ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn yn amrywio o 28 wedi'u lleoli mewn Darpariaeth Gofal Maeth yr Awdurdod Lleol, 9 wedi'u lleoli gyda rhieni, 3 mewn gofal preswyl, 3 gyda gofalwyr sy'n berthnasau, 2 gydag Asiantaethau Gofal Maeth Annibynnol, 1 mewn lleoliad mabwysiadu, ac 1 yn yr ysbyty.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 87.5% o'r plant ymweliad statudol. Roedd hyn yn cymharu ag 89.6% yn Chwarter 1
- Roedd 26 o'r plant a adolygwyd yn destun Gorchymyn Gofal Llawn, roedd gan 12 Orchymyn Gofal Dros Dro, roedd gan 3 Orchymyn Lleoli, ac roedd 7 o dan statws cyfreithiol Adran 76.
- Cofnodwyd bod 100% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth yn bodloni anghenion y plant/ pobl ifanc a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn.
- Nifer a chanran y plant (â digon o grebwyll) oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgynghori ynghylch eu hadolygiad oedd 100%.
- Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 100%.
- Canran y bobl ifanc oedd yn gymwys i gael Cynllun Llwybr wedi'i sefydlu a Chynorthwyydd Personol i'w cefnogi oedd 100%.
- Cwblhawyd 27 o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybrau yn ystod y chwarter hwn. Cwblhawyd 85.2% o fewn y terfyn amser.
- Roedd 92.6% o'r Adolygiadau a gwblhawyd yn dangos bod y Cynlluniau Llwybr oedd wedi'u sefydlu yn bodloni anghenion y bobl ifanc. Pan gofnodir nad yw'r cynlluniau yn ateb anghenion y bobl ifanc, roedd hyn oherwydd nad oedd y person ifanc yn ymgysylltu â'i gynllun.
- Mewn 96.3% o'r Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gafodd eu cwblhau, roedd nail ai farn y person wedi cael ei chynrychioli yn yr adolygiad neu roedd y person ifanc wedi mynychu ei adolygiad.

| | |
|---|---|
| **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam** | Naddo |

***Crynodeb:***
Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion***.***

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol |
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid |
| **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu |

**ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Siân Howys** |
| **Swydd:** | **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 22 Rhagfyr 2021 |
| **Acronymau:** | IRO – Swyddog Adolygu Annibynnol<br>LAC – Plant sy'n Derbyn Gofal;<br>CAFCASS – Gwasanaeth Cynghori a Chymorth i Blant a Theuluoedd<br>APR – Cofnodion Gweithredu a Chynnydd<br>PEP – Cynllun Addysg Bersonol<br>PI – Dangosyddion Perfformiad<br>CAMHS – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed<br>NEET – Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant<br>PRU – Uned Cyfeirio Disgyblion |

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

## Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

## Chwarter 2: 1 Gorffennaf 2021 – 30 Medi 2021

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

| CYNNWYS | | |
|---|---|---|
| **TUDALEN:** | | |
| **ADRAN UN:** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **ADRAN DAU:** | **CYNLLUNIO GOFAL** | **4** |
| **ADRAN TRI:** | **YMGYNGHORI A CHYFRANOGI** | **20** |
| **ADRAN PEDWAR:** | **PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU** | **23** |
| **ADRAN PUMP:** | **GWERTHUSO** | **23** |
| **ADRAN CHWECH:** | **CYNLLUNIAU LLWYBR** | **24** |
| **ADRAN SAITH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR** | **26** |
| **ADRAN WYTH:** | **SEIBIANNAU BYR** | **27** |
| **ADRAN NAW:** | **GOFALWYR MAETH** | **28** |

**ADRAN UN: CYFLWYNIAD**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sydd wedi gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro sy'n cael eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

**MEINCNODI**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw ymarferion gwael.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Barnwyd nad oedd angen gwneud hyn ar gyfer unrhyw blant/bobl ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

*Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch ag:*


Elizabeth Upcott
Gwasanaeth Diogelu
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

## ADRAN DAU

## CYNLLUNIO GOFAL

### 1. Y Prif Ffigyrau ar gyfer Chwarter 2:

| Mae'r tabl a'r siart isod yn rhoi cyfanswm y data Plant sy'n derbyn Gofal ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf. | |
|---|---|
| 30 Medi 2021 | 91 |
| 30 Mehefin 2021 | 89 |
| 31 Mawrth 2021 | 85 |
| 31 Rhagfyr 2020 | 79 |
| 30 Medi 2020 | 75 |
| 30 Mehefin 2020 | 78 |
| 31 Mawrth 2020 | 74 |
| 31 Rhagfyr 2019 | 72 |
| 30 Medi 2019 | 63 |
| 30 Mehefin 2019 | 64 |
| 31 Mawrth 2019 | 63 |
| 1 Ionawr 2019 | 60 |




### 2. Nifer a chanran yr Adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.9%


Adolygwyd 48 o blant yn ystod y chwarter hwn.

- Cynhaliwyd 47 (97.9%) o gyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn y terfynau amser statudol.


Cynhaliwyd 1 (2.1%) cyfarfod adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal y tu allan i'r gofynion statudol a'r rheswm a gofnodwyd oedd: -

- Roedd oedi o 1 diwrnod ar gyfer adolygiad plentyn oherwydd Cyfarfod Cynllunio brys oedd yn digwydd mewn perthynas â'r person ifanc.

| | Gorff-Medi 2021 | Ebrill-Meh 2021 | Ion-Maw 2021 | Hyd-Rhag 2020 | Gorff-Medi 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter | 48 | 67 | 58 | 60 | 41 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser | 47 | 66 | 52 | 60 | 38 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser | 1 | 1 | 6 | 0 | 3 |





## 3. Oed a rhyw plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:




## 4. Natur lleoliadau plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

| Math o Leoliad | Yn y Sir | Tu allan i'r Sir | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol | 27 | 1 | 28 |
| Lleoli â Rhieni | 8 | 1 | 9 |
| Gofalwyr sy'n Berthnasau | 1 | 2 | 3 |
| Arall | 1 | | 1 |
| Preswyl | - | 3 | 3 |
| Gofalwyr Asiantaeth Maethu Annibynnol | - | 2 | 2 |
| Mabwysiadu | - | 1 | 1 |
| Ysbyty | - | 1 | 1 |
| Lleoli â Theulu | | | |
| Preswyl Mamau a Babanod | | - | - |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Maethu Annibynnol ar gyfer Rhiant a Babi | | | |
| Llety â Chymorth | | | |
| Byw'n Annibynnol | | | |
| | **37** | **11** | **48** |





## 5. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

| Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd | |
|---|---|
| Gorchymyn Gofal Llawn | 26 |
| Gorchymyn Gofal Dros Dro | 12 |
| Gorchymyn Lleoli | 3 |
| Adran 76 | 7 |
| **Cyfanswm** | **48** |




## 6. Y rhesymau pam bod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

| Cyfnod | Y nifer sydd wedi gadael gofal | *Y rheswm dros adael gofal* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Mabwysiadu* | *Dychwelyd adref at y teulu* | *'Pan rwyf yn barod'* | *Diddymu'r Gorchymyn Gofal* | *Llety â Chymorth / Byw'n Annibynnol* |
| **1 Gorffennaf hyd 30 Medi 2021** | **3** | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| **1 Ebrill hyd 30 Mehefin 2021** | **5** | 1 | 2 | 1 | 1 | - |
| **1 Ionawr hyd 31 Mawrth 2021** | **4** | 3 | 1 | - | - | - |
| **1 Hydref hyd 31 Rhagfyr 2020** | **6** | 0 | 4 | 1 | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **18** | **4** | **7** | **2** | **2** | **3** |



**7. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**


Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Ymhob un o'r 48 (100.0%) Adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal cofnodwyd bod Gweithiwr Cymdeithasol cymwys yn gweithio gyda'r plentyn dan sylw.

**8. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd o fewn y terfynau amser gofynnol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 87.5%

- Derbyniodd 42 (87.5%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.
- Ni dderbyniodd 6 (12.5%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.





**Sylwadau**: Dyma ganran yr ymweliadau a gafodd eu gwneud lle cafodd plant eu gweld.

**9. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Bu 7 lleoliad newydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd ym mhob un o'r 7 (100.0%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn / person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad.




- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 3 phlentyn.

**Sylwadau:** Mae wedi'i gadarnhau erbyn hyn bod y Cynllun Gofal a Chymorth ar gyfer 1 plentyn wedi cael ei ddiweddaru ers yr adolygiad, mae'r achosion eraill wedi cael eu dilyn i fyny gan y Swyddog Adolygu Annibynnol.

**10. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.**


<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Cynhaliwyd 4 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnodwyd ym mhob un o'r 10 (100.0%) adolygiad fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn gyson â'r chwarter blaenorol.


- Mewn 6 (12.5%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad/Cynllun Gofal a Chymorth/Cynllun Parhad.

Dyma oedd natur y pryderon:-


- Nododd 2 Adolygiad fod problemau gydag oedi, nid oedi ar ran yr Awdurdod Lleol, ond bod asesiad brawd/chwaer yn cymryd yn hir i'w drefnu oherwydd yr angen i gael Asesiad Annibynnol a chynllun hirdymor.
- Ar gyfer 1 person ifanc roedd y lleoliad maethu dan bwysau a dylai fod wedi para 6 wythnos yn unig dros wyliau'r haf. Roedd ymddygiad y person ifanc yn heriol ac yn bryderus iawn ar y pryd.
- Mewn 1 adolygiad gofynnodd y gofalwyr maeth am leoliad hirdymor arall ar gyfer y person ifanc.
- Adroddwyd mewn 1 adolygid bod Lleoliad Preswyl wedi chwalu a bod y person ifanc wedi cael ei leoli mewn llety dros dro a oedd yn lleoliad brys byrdymor ar y pryd.
- Cofnododd adolygiad pellach fod y person ifanc wedi cael ei leoli gyda gofalwyr maeth dros dro oherwydd nid oedd yn glir a fyddai'r gofalwyr maeth yn gallu rheoli anghenion y person ifanc yn barhaol.




## 11. Faint o amser mewn gofal:



**12. Natur y Cynlluniau Parhad:**





**13. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd ofal seibiant gan rywun heblaw eu prif ofalwyr.**

- Mewn 4 (8.3%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal nodwyd bod y plentyn/person ifanc yn cael gofal seibiant gan rywun heblaw ei brif ofalwyr.

**14. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys oedd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.**

Targed a bennwyd: 100% Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Dywedodd 4 (100.0%) person ifanc fod Cynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar eu cyfer.



**15. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (o oedran a lefel dealltwriaeth briodol) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn cael eu gofalu amdanynt.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 35 plentyn/person ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 13 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.

- Roedd 35 (100%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw eu teuluoedd o'i gymharu â 98.0% yn y chwarter blaenorol.

**16. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynlluniau Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 36 plentyn/person ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 12 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Roedd 35 (97.2%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).

- Mewn 1 (2.8%) Adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Gofal wedi dyddio a bod angen ei ddiweddaru gyda'r person ifanc i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

**17. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud Plant sy'n Derbyn Gofal.**

- Mewn 11 (22.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â (8.9%) yn y chwarter blaenorol.

  Dyma oedd y rhesymau dros newid y lleoliadau:

  - 2 berson ifanc wedi symud i leoliad maeth yn dilyn canlyniad asesiad aflwyddiannus yn yr Uned Breswyl Mamau a Babanod.
  - Symudodd 2 berson ifanc o leoliad byrdymor i leoliad hirdymor.
  - Symudodd 1 person ifanc o leoliad byrdymor i leoliad preswyl hirdymor.
  - Cofnododd 1 Adolygiad fod y person ifanc yn symud i leoliad mabwysiadu.
  - Mewn 1 Adolygiad roedd lleoliad preswyl y person ifanc wedi chwalu a symudodd i'r Uned Breswyl o fewn y Sir.
  - Chwalodd lleoliad cyntaf 2 berson ifanc ac roedden nhw wedi symud i leoliad hirdymor.
  - Symudodd 1 person ifanc o leoliad brys i leoliad byrdymor pellach.
  - Penderfynodd Asiantaeth Annibynnol Gofalwyr Maeth 1 person ifanc ymddiswyddo a rhoi rhybudd ar gyfer lleoliad.

**18. Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 91.7%

- Cofnodwyd bod 44 (91.7%) o gynlluniau lleoli / gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc o'i gymharu â 100% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnododd 4 (8.3%) adolygiad nad oedd y lleoliad/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant. Y rhesymau a gofnodwyd oedd: -

  - Adroddodd 2 Adolygiad fod hyn oherwydd y ffaith nad oedd y rhieni yn ymgysylltu'n effeithiol â'r cynllun/cyngor proffesiynol.
  - Mewn 1 adolygiad ar gyfer plant a leolwyd mewn lleoliad mabwysiadu nid oedd y mabwysiadwyr cymeradwy yn dilyn y cynllun, yn mynd yn groes i'r cyngor ac yn datgysylltu o'r gweithwyr proffesiynol.
  - Cofnododd 1 adolygiad pellach fod y lleoliad yn ddewis byrdymor tra bod dewisiadau eraill yn cael eu hystyried.

**19. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn.**

- Mewn 5 (10.4%) adolygiad nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.


**20. Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

- Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau yn y cyfnod lle cafodd enw'r person ifanc ei gynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**21. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.9%

- Roedd 47 (97.9%) o'r Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal wedi cael asesiad iechyd erbyn eu hadolygiad o'i gymharu â 97.1% yn y chwarter blaenorol.
- Nid oedd gan 1 (2.1%) o'r Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal asesiad iechyd diweddar adeg ei adolygiad, ond mae hwn yn ei le bellach.




| |
|---|
| **Sylwadau:** Mae Asesiad Iechyd yn ei le bellach, a'r rheswm dros yr oedi oedd hysbysiad hwyr am statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal i'r tîm Iechyd. |

**22. Canran y plant a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu derbyn i ofal.**

Targed a bennwyd: 100% Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ynghylch y plant/pobl ifanc a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu derbyn i ofal yn ymwneud â 4 plentyn/person ifanc.

- Cofnodwyd ym mhob un o'r 4 adolygiad (100.0%) bod y plant/pobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

**********

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 41 plentyn/ person ifanc oherwydd diystyriwyd 7 plentyn/person ifanc a oedd yn cael eu Hadolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cyntaf er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 41 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu â 95.1% yn y chwarter blaenorol.

**23. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl cael eu derbyn i ofal.**

**Wedi cael eu gweld gan ddeintydd**

Mae'r data ynghylch y plant/pobl ifanc a oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl cael eu derbyn i ofal yn ymwneud â 4 plentyn.

- Cofnododd pob un o'r 4 Adolygiad (100.00%) nad oedd y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl cael ei dderbyn i ofal.

**********

**Wedi cael eu gweld gan ddeintydd**


<u>Targed a bennwyd 90% – Yr hyn a gyflawnwyd 70.3%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 37 o blant/pobl ifanc gan fod 11 plentyn/person ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu Hadolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 26 (70.3%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol o'i gymharu â 55.2% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd nad oedd 11 (29.7%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.

| |
|---|
| **Sylwadau**: Cafodd archwiliadau deintyddol arferol eu gohirio oherwydd pandemig Covid-19 a chanllawiau Llywodraeth Cymru. |




**24. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.**

- Mewn 12 (85.7%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi'i gofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

- Adroddwyd mewn 2 (14.3%) adolygiad bod y cam gweithredu hwn heb ei gymryd eto.

**Sylwadau:** Cadarnhawyd bod y ddau berson ifanc wedi'u cofrestru bellach.

**25. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.9%</u>

- Roedd 47 (97.9%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu o'i gymharu â 100.0% yn y chwarter blaenorol.

- Arhosodd 1 (2.1%) plentyn wedi'i gofrestru gyda'r meddyg teulu oherwydd nid oedd wedi cael ei ryddhau o'r ysbyty yn dilyn ei enedigaeth ar adeg yr adolygiad.

- Roedd 42 (93.3%) o blant wedi cael eu holl frechiadau angenrheidiol.

- Roedd 3 (6.7%) phlentyn yn hwyr yn derbyn eu brechiadau, fodd bynnag, cadarnhawyd ym mhob adolygiad bod gwaith yn parhau i ddatrys hyn.

Cafodd 3 adolygiad eu diystyru o'r ffigurau oherwydd roedd y rhiant yn gwrthod caniatáu i'r plentyn gael ei frechu.

**26. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth.**

Targed: 50%

Gwir Berfformiad

- Mewn 3 (6.2%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi'i atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd mewn 2 adolygiad fod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc. Ar gyfer y person ifanc arall, cadarnhawyd yn yr adolygiad canlynol, bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn.


- Mewn 47 (100.0%) o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi'i ystyried yn yr Asesiad Iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.

- Mewn 1 Adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc yn rhy ifanc, felly cafodd hwn ei ddiystyru yn y ffigurau.

**27. Natur y ddarpariaeth addysg:**

Yn ystod y chwarter dan sylw, dyma oedd y ddarpariaeth addysg ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd:

| **Darpariaeth addysg** | |
|---|---|
| Disgyblion ysgol gynradd | 19 |
| Disgyblion ysgol uwchradd | 15 |
| Plant cyn-ysgol | 10 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) | 3 |
| Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol | 1 |
| Coleg | |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | |
| Preswyl | |
| Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) | |
| Wedi gadael ysgol | |
| Tiwtora | |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | |
| Cyflogedig | |
| **Cyfanswm** | **48** |




**28. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.**

<u>Targed a bennwyd 70% – Yr hyn a gyflawnwyd 93.9%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 33 plentyn/person ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol, ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 32 (97.0%) o'r plant a phobl ifanc dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.

  - ➢ Mewn 9 (97.0%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol o fod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal neu 20 diwrnod gwaith ar ôl newid ysgol yn unol â'r gofynion.

  - ➢ Cofnodwyd mewn 1 (10.0%) adolygiad nad oedd y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl newid ysgol yn unol â'r gofynion.

  - ➢ Mewn 23 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.

***

- Roedd gan 7 (20.0%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg anghenion dysgu ychwanegol wedi'i gydnabod.

***

- Mewn 14 (41.2%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant/pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 14 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

***

- Mewn 10 (90.9%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu pan ddechreuodd y lleoliad.

- Mewn 1 (9.1%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysg yn ei le pan ddechreuodd y lleoliad.

****

- Nododd 1 (3.0%) adolygiad y bu cyfnod pan oedd y plentyn / person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod wrth aros am le mewn ysgol, nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i threfnu o fewn mater o ddiwrnodau yn dilyn lleoliad.

**29. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio**

<u>Targed a bennwyd 0% – Yr hyn a gyflawnwyd 9.1%</u>

- Mewn 3 (9.1%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn sgil pontio, o'i gymharu â 0.0% yn y chwarter blaenorol.

**30. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol**

<u>Targed a bennwyd 12% yn cael gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 3.0%</u>
<u>Targed a bennwyd 1% yn cael gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%</u>

- Mewn 1 adolygiad (3.0%) adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu â 2.2% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Dyma'r gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn. -

- 17 sesiwn= 8.5 diwrnod
- 4 sesiwn = 2 diwrnod
- 10 sesiwn= 5 diwrnod
- 6 sesiwn = 3 diwrnod

Cyfanswm -37 sesiwn = 18.5 diwrnod

## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

**1 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 36 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 12 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bod 3 o'r rhain wedi bod yn bresennol yn yr adolygiad.

- Cofnodwyd mewn 36 (100.0%) Adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Bu 16 plentyn/person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu drwy Teams. Roedd 20 plentyn/person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori a/neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Nid oedd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw blentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu y tu allan i'r cyfarfod adolygu.

**2 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli/Cynllun Ymwelydd Annibynnol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 36 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 12 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Hysbyswyd 36 (100.0%) o blant/pobl ifanc am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol a gwnaethpwyd atgyfeiriad.

**3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 33 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 15 adolygiad nad oedd y plentyn/person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Roedd 33 (100.0%) plentyn / person ifanc yn gwybod am y drefn gwyno, o gymharu â 97.7% yn y chwarter blaenorol.

**4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 80% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 40 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 8 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Cwblhaodd 40 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a/neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a/neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a/neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

Dadansoddiad o'r ymgynghori
Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon allan ar gyfer 40 adolygiad.
Mewn 30 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol, neu wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 39 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 9 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu roedd yn byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn yn y ffigyrau.

- Cwblhaodd 38 (97.4%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a/neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

- Nododd 1 (2.6%) adolygiad fod amryfusedd wedi digwydd o ran cael y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd i fod yn bresennol/ymgynghori â nhw.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Cynrychiolwyr Iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 87.5%

- Mewn 42 (87.5%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

- Mewn 6 (12.5%) adolygiad adroddwyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

**7 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn Adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 94.7%

- Mewn 36 (94.7%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig o'i gymharu â 100.0% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 2 (5.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd unrhyw gynrychiolydd ysgol nac adroddiad ysgrifenedig.

**8 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Dogfennau Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 85.4%

- Mewn 41 (85.4%) adolygiad cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu o'i gymharu â 64.2% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 7 (14.6%) adolygiad cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad.

**Sylwadau:** Mae hyn oherwydd problemau staffio o fewn y Tîm Gwaith Cymdeithasol. Mae mesurau yn cael eu rhoi yn eu lle i roi sylw i'r broblem hon.

## ADRAN PEDWAR:
## PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Er y nodwyd nad oedd adolygiadau canol cyfnod yn cael eu cynnal, lle bo angen, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn dwyn adolygiadau ymlaen pan oedd pryderon.

## ADRAN PUMP

## GWERTHUSO

**Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN CHWECH

## CYNLLUNIAU LLWYBR

### Ar gyfer pobl dros 16 oed a heb fod yn Blant sy'n Derbyn Gofal/pobl dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 27 o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybrau yn ystod y chwarter hwn.

1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybrau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser

- Cynhaliwyd 23 (85.2%) o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybrau o fewn y terfynau amser o'i gymharu ag 80.0% yn y chwarter blaenorol.
- Cynhaliwyd 4 (14.8%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r terfynau amser. Y rhesymau a gofnodwyd oedd materion staffio ac ail-ddyrannu achosion.

2 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**

- Ym mhob un o'r 27 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a/neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

3 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod**

- Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 24 (88.9%) o Adolygiadau Cynlluniau Llwybr o'i gymharu â 100.0% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 3 (11.1%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

4 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal**

- Cadarnhawyd mewn 26 (96.3%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.
- Adroddodd 1 (3.7%) Adolygiad nad oedd barn y person ifanc wedi cael ei chynrychioli oherwydd y ffaith bod y person ifanc yn ddigartref ac yn gwrthod ymgysylltu â'r gweithwyr proffesiynol.

5 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu Cyfarfod Adolygu.**

- Mewn 11 (40.7%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.
- Mewn 16 (59.3%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn yr adolygiad.

6 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd wedi bodloni anghenion y person ifanc**

- Mewn 25 (92.6%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc dan sylw.
- Adroddodd 2 (7.4%) Adolygiad nad oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc; y rhesymau a gofnodwyd ar gyfer y ddau oedd nad oedd y person ifanc yn ymgysylltu ag unrhyw un.

7 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal/pen-blwydd yn 18 oed**

- Adroddodd 2 (100.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybrau fod y Cynllun Llwybr wedi'i ddiweddaru cyn i'r person ifanc adael gofal / troi'n ddeunaw oed.

8 **Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN SAITH

## GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD

Cynhaliwyd 1 Adolygiad o Ofal Saib Byr Rheolaidd yn ystod y chwarter hwn**.**

**1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Ofal Saib Byr Rheolaidd a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol**

- Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o fewn y terfynau amser.

**2 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn Gofal Saib Byr Rheolaidd a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser gofynnol**

- Cofnodwyd bod yr ymweliadau statudol wedi cael eu cwblhau, fodd bynnag, ni chawsant eu cofnodi ar y system ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ond cawsant eu diweddaru ar ôl i'r chwarter ddod i ben.

**3 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy/a fynychodd y Cyfarfod Adolygu**

- Cofnodwyd yn yr adolygiad bod y person ifanc wedi'i gynrychioli/wedi mynychu'r cyfarfod adolygu.

**4 Dangosydd Perfformiad: Canran y rhieni yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Cyfarfod Adolygu**

- Cofnodwyd bod y rhiant naill ai wedi mynychu/wedi'i gynrychioli/yn y cyfarfod adolygu.

**5 Dangosydd Perfformiad: Canran y Gofalwyr Maeth yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Cyfarfod Adolygu**

- Cofnodwyd bod y Gofalwyr naill ai wedi mynychu/wedi'u cynrychioli yn yr adolygiad.

***

## ADRAN WYTH

## SEIBIANNAU BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw Adolygiadau o Seibiannau Byr yn ystod y cyfnod dan sylw.

***

## ADRAN NAW

## ADOLYGIADAU O OFALWYR MAETH

Cynhaliwyd 3 Adolygiad o Ofalwyr Maeth yn ystod y cyfnod dan sylw.

1 **Dangosydd Perfformiad: Nifer a chanran yr Adolygiadau o Ofalwyr Maeth a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol**

- Cynhaliwyd 2 (66.7%) Adolygiad o Ofalwyr Maeth o fewn y terfynau amser.
- Cynhaliwyd 1 (33.3%) Adolygiad o Ofalwr Maeth y tu allan i'r terfynau amser oherwydd absenoldeb Cadeirydd Annibynnol.

**2 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd oddi wrth y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal**

- Cadarnhaodd 1 (33.3%) Adolygiad o Ofalwyr Maeth fod yr ymgynghoriad wedi cael ei ddarparu gan y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer un o'r achosion, ond ni chafodd eu derbyn ar gyfer achos arall.
- Cadarnhaodd 2 (66.7%) Adolygiad o Ofalwyr Maeth fod yr ymgynghoriad wedi cael ei ddarparu gan y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal.

3 **Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd oddi wrth blant**

- Cadarnhaodd 1 (33.3%) Adolygiad o Ofalwyr Maeth fod yr ymgynghoriadau wedi cael eu derbyn gan y plant.
- Adroddodd 2 (66.7%) Adolygiad o Ofalwyr Maeth nad oedd ymgynghoriadau wedi cael eu derbyn.

4 **Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adroddiadau gan Weithwyr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio a dderbyniwyd**

- Derbyniwyd adroddiad gan y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio ar gyfer pob un o'r 3 (100%) adolygiad.

5 **Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau oedd wedi gallu gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt wneud**

- Cadarnhawyd bod pob un o'r 3 (100.0%) adolygiad wedi gallu gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt ei wneud.

**6 Dangosydd Perfformiad: Canran y lefel o fodlonrwydd o ran y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd**

- Nododd 2 (66.7%) adolygiad fod y Gofalwyr Maeth yn 'fodlon' ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd.

- Nododd 1 (33.3%) adolygiad fod y Gofalwr Maeth o'r farn bod gwasanaeth y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd yn 'anfoddhaol' oherwydd bod gormod o broblemau staffio, cyfyngiadau COVID ac ati, ac felly ni chyrhaeddwyd y lefelau arferol o oruchwyliaeth a ddisgwylir yn y cyfnod adolygu hwn.

# Eitem Agenda 4

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R :** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **DYDDIAD:** | 15 Mawrth 2022 |
| **LLEOLIAD:** | Dros Zoom |
| **TEITL:** | Gwasanaethau y Canolfannau Lles - Cynigion Hyrwyddo |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Darparu enghreifftiau o'r amrywiadau i'r Ffioedd a Chodiannau y bydd y Gwasanaeth Canolfannau Lles yn eu cyflwyno am gyfnod amser penodol/ fel cynigion hyrwyddo. |
| **RHESWM PAHAM Y BU I GRAFFU OFYN AM Y WYBODAETH** | Bu i aelodau ofyn am fwy o wybodaeth yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15.2.2022 |

**CEFNDIR:**

Bydd gan Wasanaethau'r Canolfannau Lles sydd o dan Borth Cymorth Cynnar rôl critigol wrth ddarparu cyfleoedd sy'n cyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles ein preswylwyr.

Bydd annog preswylwyr i gymryd rhan rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol yn cyfrannu'n uniongyrchol at well iechyd meddwl a chorfforol ein cymunedau ac yn cynorthwyo i adeiladu gwytnwch unigol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau iechyd.

Un elfen o Wasanaethau'r Canolfannau Lles yw rhedeg cyfleusterau hamdden y Cyngor yn:
- Canolfan Hamdden Aberaeron
- Canolfan Hamdden Aberteifi
- Canolfan Hamdden a Phwll Nofio Llanbedr Pont Steffan
- Canolfan Hamdden Plascrug
- Neuadd Chwaraeon Penglais
- Cae pob tywydd Synod Inn

Mae'r gwasanaeth yn creu incwm drwy godi tâl am ddefnyddio ei gyfleusterau a mynediad i raglenni gweithgareddau caiff eu darparu.

Yn 2018/19 (cyn y pandemig) roedd yr incwm a grëwyd gan y gwasanaeth yn cyfateb i £752,673 ac roedd oddeutu £176,000 o'r ffigwr yma o ganlyniad i becynnau aelodaeth (ffi misol penodol ar gyfer lefelau defnydd amrywiol o ran nofio, yr ystafell ffitrwydd a dosbarthiadau ymarfer. Roedd yr incwm a grëwyd a'r Arian grant yn 55% o gyfanswm y gost o ddarparu'r Gwasanaethau Canolfannau Lles a darparwyd y gweddill gan arian craidd y Cyngor.

Fel gwasanaeth anstatudol bydd yn ofynnol i'r gwasanaeth Canolfannau Lles ddenu pobl i ddefnyddio ei gyfleusterau. Mae nifer o elfennau all ddylanwadu ar lle a phryd y bydd rhywun yn penderfynu i fod yn actif ac y mae'r prisiau a godwyd yn rhan o hyn.

Mae'r cynnig yma'n ymwneud â dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar mewn ymgynghoriad ag Aelod Cabinet â'r portffolio er mwyn amrywio'r Ffioedd a Chodiannau ar gyfer 2022/23 er mwyn rhedeg cynigion tymor byr / amser penodol i ddenu mwy o blant, pobl ifanc, unigolion a theuluoedd i gymryd rhan rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol a dilyn ffordd o fyw iachach.

Bydd y cynnig yn gweddu gyda'r System Rheoli Hamdden newydd y bu i'r gwasanaeth ei gaffael yn ddiweddar. Bydd y System Rheoli Hamdden newydd yn darparu gwasanaeth bydd yn medru darparu gwell data ar ei gwsmeriaid a bydd hefyd yn galluogi pobl i archebu gweithgareddau ar lein drwy app. Bydd yn galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu ei berthynas gyda'i ddefnyddwyr a gwella eu profiadau wrth ddefnyddio'r ddarpariaeth. Bydd hefyd yn fodd o ddarparu'r gwasanaeth â'r wybodaeth a'r data y bydd ei angen arnom er mwyn gwneud penderfyniadau am gynnig cynigion hyrwyddo amser penodol / cyfnod byr

Prif bwrpas cynigion hyrwyddo yw :

a) Denu cwsmeriaid newydd
b) Cynyddu'r defnydd a wneir o'r canolfannau
c) Cadw defnyddwyr
d) Cynyddu defnydd yn ystod amserau tawel
e) Creu incwm (tymor byr a thymor hir)

Mae'n bosib y gall cynigion hyrwyddo fod yn briodol i'r holl gyfleusterau caiff eu rhedeg gan y Gwasanaeth Canolfannau Lles neu dim ond un ohonynt. Bydd hyn yn ddibynnol ar yr hyn y mae'r data yn dweud wrthym hynny yw, mae'r ddarpariaeth yn amrywio o safle i safle fel y bydd y cynigion hyrwyddo. Caiff pob cynnig ei adolygu er mwyn cael syniad o ran pa mor llwyddiannus ydyw ac mae'n bosib y caiff ei ail-adrodd; ei newid neu ei ddiystyru yn gyfan gwbl.

Bydd yn rhaid ystyried yn ofalus y cynigion fydd ar gael am na ddylent danseilio gwerth y gwasanaeth i gwsmeriaid cyfredol. Fel arfer nid yw cynigion hyrwyddo yn costio'r darparwr yn ariannol am eu bod yn gysylltiedig â darpariaeth gyfredol.

Mae enghreifftiau o gynigion hyrwyddo'n cynnwys:

- Digwyddiadau Iechyd a Lles - achosion lle bydd pris newydd i adlewyrchu cymysgedd o weithgareddau caiff eu cynnig mewn un digwyddiad ( achosion lle byddai adio prisiau'r gweithgareddau unigol yn afrealistig ac yn rhy ddrud.
- Ymgyrchoedd Iechyd - creu cynnig fydd yn ffocysu ar ymgyrch iechyd penodol e.e. cwrs chwech wythnos wedi ei anelu at leihau risg ar gyfer y rheiny sydd ar fin dioddef o glefyd y siwgr.
- Llai o bris am weithgaredd sy'n cymryd lle fel arfer ar gyfnod tawel o'r dydd e.e. nos Wener, prynhawn Sadwrn / Sul.

- Achosion lle bydd ail blentyn yn hanner pris neu am ddim ar gyfer gweithgaredd penodol e.e. Ystafell Chwarae Meddal ym Mhlascrug.
- Dewch â ffrind am ddim pan fyddwch chi'n talu am weithgaredd.
- Pecynnau Aelodaeth Gwyliau ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd gartref o'r Brifysgol.
- Cyfeirio ffrind a derbyn aelodaeth mis am ddim pan fyddant yn dod yn aelod.

Er y bydd yn bosib cynllunio rhai digwyddiadau ymlaen llaw yn aml iawn bydd newidiadau yn ein hamgylchedd gweithredu lle rydym ond yn medru ymateb yn adweithiol e.e. ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus cenedlaethol ar fyr rybudd.

Ar achosion fel hyn yn benodol bydd yn bwysig ein bod yn medru ymateb yn gyflym am fod yr amser fydd angen i gymeradwyo amrywiaeth mewn pris unigol yn medru cael effaith andwyol ar ein bwriad a lleihau ein gallu i fod yn gystadleuol a thrwy hynny colli cyfle i hyrwyddo gweithgareddau corfforol a'i fanteision o ran iechyd a lles i'n preswylwyr.

Nid yw cynigion hyrwyddo'n rhywbeth newydd o fewn cyfleusterau caiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol:

- Mae Hamdden Sir Benfro yn gweithredu system o brisiau gostyngedig hyd at 1 Ebrill 2022.
- Bu i Actif Sir Gâr gynnig aelodaeth am ddim am fis i unrhyw un wnaeth ymuno ar Ddiwrnod San Folant.
- Mae Freedom Leisure (Powys) yn cynnig 12 mis o aelodaeth am bris 9 mis (ar aelodaeth blynyddol wedi ei dalu'n llawn)
- Bu i Celtic Leisure (Castell Nedd Port Talbot) gynnig cyplau wnaeth ymuno ar ddiwrnod Sant Folant y cyfle i ennill aelodaeth am fis am ddim.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â chyfleusterau ymddiriedolaeth gymunedol yn Aberaeron, Aberteifi, Llandysul a Thregaron. Gan fod y cynigion uchod mor wahanol a'r pellter sydd rhwng cyfleusterau y cynghorau yma mae'n annhebygol y bydd y cynigion hyrwyddo'n cael effaith negyddol ar yr ymddiriedolaethau cymunedol. Mae'n fwriad gan y Gwasanaeth Canolfannau Lles i archwilio potensial rhai cynigion aelodaeth ar y cyd gyda'r cyfleusterau ymddiriedolaeth gymunedol pan fydd y System Rheoli Hamdden newydd ar waith.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau?** Na | |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Cynigion hyrwyddo tymor byr i annog pobl i gymryd rhan dros gyfnod hir. |
| | **Integreiddio:** | Effaith bositif ar Iechyd a Lles a'r Economi. |

| | |
|---|---|
| **Cydweithio:** | Bwriedir archwilio'r posibilrwydd o gael pecynnau Aelodaeth ar y Cyd gyda'r cyfleusterau Ymddiriedolaeth Gymunedol |
| **Cynnwys:** | Gofynnir am adborth oddi wrth gwsmeriaid ar gynigion hyrwyddo. Yn ddiweddar clustnodwyd cost mewn ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn ddiweddar ar y Cynllun Gweithgareddau Corfforol newydd. |
| **Atal:** | Bydd cynnydd yn lefel y gweithgareddau corfforol yn cyfrannu at well Iechyd a Lles |

**ARGYMHELLIAD**

Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar mewn ymgynghoriad ag Aelod Cabinet â'r portffolio er mwyn amrywio'r Ffioedd a Chodiannau ar gyfer 2022/23 er mwyn rhedeg cynigion tymor byr / amser penodol i ddenu mwy o blant, pobl ifanc , unigolion a theuluoedd i gymryd rhan rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol a dilyn ffordd o fyw iachach.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

- Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol
- Cynyddu defnydd cyfleusterau hamdden y cyngor
- Cynyddu'r incwm

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elen James / Carwyn Young |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cymorth Cynnar / Rheolwr Corfforaethol - Canolfannau Lles |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 17.02.2022 |
| **Acronymau:** | System Rheoli Hamdden |

**Atodiadau:**

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Llun, 31 Ionawr 2022**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Marc Davies, Cynghorydd Odwyn Davies, Cynghorydd Peter Davies, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Hag Harris, Cynghorydd Alun Lloyd Jones, Cynghorydd Dan Potter, Cynghorydd John Roberts a/ac Cynghorydd Ivor Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

(10.00 - 10.45 am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Paul Hinge, Lyndon Lloyd, Mark Strong a Lynford Thomas am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim

**3 Materion Personol**

Cytunwyd i anfon llythyr at y Cynghorydd Mark Strong i ddymuno'n dda iddo.

**4 Newidiadau i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Dafydd Edwards drosolwg o'r adroddiad cyn i'r swyddogion roi mwy o fanylion. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai addasiadau bach a chanolig ar gyfer pobl anabl ar gael i bawb, hynny yw, argymhellwyd y dylid dileu'r Prawf Adnoddau Ariannol. Felly, gwnaed newidiadau i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai'r Sector Preifat er mwyn adlewyrchu argymhelliad Llywodraeth Cymru. Yn sgil y cynnydd mewn costau deunyddiau a llafur, cynyddwyd uchafswm y cymorth oedd ar gael ar gyfer yr addasiadau bach (a elwid gynt yn Grant Diogel, Cynnes a Saff) a'r Cymorth Atgyweirio Brys. Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r uchafsymiau ar gyfer y benthyciadau di-log yr oedd yr Awdurdod Lleol yn eu rhoi ac roedd gwybodaeth fanylach am y benthyciadau di-log wedi'i chynnwys.

Yn y gorffennol roedd y Panel Grantiau yn trafod unrhyw achosion lle’r oedd y taliadau atodol ar gyfer y Grantiau Dewisol i’r Anabl yn fwy na £15k, ynghyd ag unrhyw amgylchiadau arbennig neu unigryw. Addaswyd hyn fel bod y penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â’r pwerau dirprwyedig a roddwyd i’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (a nodir yn y Cyfansoddiad) gan ymgynghori â’r Aelod Cabinet perthnasol. Bu i’r Pwyllgor ystyried y newidiadau a gynigiwyd.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau’r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

> Cymeradwyo’r newidiadau arfaethedig i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion.

Yn dilyn awgrym gan y Cadeirydd, cytunodd Aelodau’r Pwyllgor, pan fyddai digon o amser wedi mynd heibio, y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor er mwyn asesu effaith rhoi’r polisi ar waith.

**5 Cofnodion cyfarfod 16 Rhagfyr 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

Penderfynodd y Pwyllgor i gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr yn rhai cywir.

Materion yn codi
Dim

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 14 Chwefror 2022**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Llun, 14 Chwefror 2022**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Bryan Davies (Cadeirydd), Gethin Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Elaine Evans, Keith Evans, Hag Harris, Alun Lloyd Jones, Lyndon Lloyd MBE, Dan Potter, John Roberts a Lynford Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorydd Ray Quant (Dirprwy Arweinydd), y Cynghorwyr Catherine Hughes, Alun Williams, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Rhodri Evans.

**Cynghorwyr yn bresennol nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor**: Roedd y Cynghorwyr Ceredig Davies a Rowland Rees-Evans hefyd yn bresennol.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Eifion Evans, (Prif Weithredwr); Barry Rees, (Cyfarwyddwr Corfforaethol); James Starbuck, (Cyfarwyddwr Corfforaethol); Siân Howys, (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol); Donna Pritchard, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Ceredigion); Stephen Johnson, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael); Duncan Hall, (Rheolwr Corfforaethol, Cyllid a Chyfrifon Gwasanaethau); Justin Davies, (Rheolwr Corfforaethol, Cyllid Craidd, Cyllid a Chaffael); Lowri Edwards, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd); Alun Williams, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi a Pherfformiad); Elen James, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant); Dwynwen Jones, (Swyddog Trosolwg a Chraffu); Nia Jones, (Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd); Neris Morgans, (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd); Kirsty Jenkins, (Cyfrifydd Gwasanaethau); Chris Macey, (Cyfrifydd Gwasanaethau); Carys Fowles, (Cyfrifydd Cynorthwyol); Ann James, (Cyfrifydd Cynorthwyol); Veronica Evans, (Cyfrifydd Cynorthwyol), Carol Thomas ac Iona Davies (Cyfieithwyr).

(9.30 am - 1.18 pm)

**6 Ymddiheuriadau a Materion Personol**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Mark Strong, Paul Hinge ac Ivor Williams am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant â theulu Lorelei Bernice Marka a fu farw'n ddiweddar. Bu Lorelei yn gweithio fel Warden Cŵn i'r Awdurdod am flynyddoedd lawer.

Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant hefyd â Justin Davies, (Rheolwr Corfforaethol, Cyllid Craidd, Cyllid a Chaffael), a Nicola Davies, (Cyfieithydd i'r Awdurdod) ar farwolaeth ddiweddar mam Nicola, Mrs Angela Rogers-Lewis, mam-yng-nghyfraith Justin.

Hefyd estynnodd y Cadeirydd ei Ddymuniadau Gorau i James Thomas, mab y Cynghorydd Lynford Thomas sy'n gwella ar hyn o bryd yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty.

**7 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu.

**8 Adroddiad ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23**

Amlinellodd y Cynghorydd Bryan Davies, Cadeirydd y Pwyllgor, weithdrefn y cyfarfod a chroesawodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/2023 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd, gan esbonio mai setliad dros dro yw hwn, a disgwylir y setliad terfynol ar 1 Mawrth, 2022. Cyfanswm y setliad refeniw, a elwir yn Gyllid Allanol Cyfun, a ddyrannwyd i Geredigion ar gyfer 2022/23 yw £119.419m. Mae hyn yn cymharu â dyraniad 2021/22 o £110.006m (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau) ac mae'n gynnydd o 8.6%. Mae Cymru gyfan wedi gweld cynnydd o 9.4% ar gyfartaledd gyda Cheredigion yn 19eg. Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod £50 miliwn o arbedion wedi'u gwneud ers ei phenodiad yn 2012.

Mae Setliad Ceredigion yn adlewyrchu ystod o symudiadau ailddosbarthu llai ffafriol yn ariannol a welir yn y boblogaeth a dangosyddion niferoedd disgyblion Ysgol Uwchradd. Mae Asesiadau o Wariant Safonol yn gyfrifiadau tybiannol o'r swm y mae angen i bob Cyngor ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth. Yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer 2022/23 yw £166.372m, sef cynnydd o 7.2% (2021/22 £155.153m). Y cynnydd mwyaf sylweddol o ran gwasanaeth oedd Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, sef 12.2%.

Mae model y Gyllideb wedi'i ddrafftio i gynnwys yr addasiadau o ran y setliad dros dro. Bydd angen ystyried unrhyw addasiadau sydd eu hangen sy'n codi yn y setliad terfynol a'u hymgorffori'n briodol yn y gyllideb.

Mae'r gwaith asesu manwl, a wnaed i nodi'r pwysau anochel o ran costau sy'n wynebu'r Gwasanaethau, wedi'i gwblhau, ac mae hwn wedi nodi cyfanswm net o £13.1m, a grynhoir yn Atodiad 1 ym mhapurau'r agenda. Mae'r swm yma bron yn ddwbl y blynyddoedd cynt ac yn £3.8m yn fwy na'r swm uwch sydd ar gael yn y setliad a byddai hyn gyfystyr â'r angen i gynyddu Treth y Cyngor o bron i 8%, fodd bynnag mae rhai arbedion ar gael i broses pennu'r gyllideb.

Daw costau cynyddol Gofal yn unig i £7m, gan gynnwys:-

- Cyflog Byw Gwirioneddol £9.90 y DU ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr 1.25% – yn effeithio ar y rhan fwyaf os nad y cyfan o'r Gwasanaethau a Gomisiynir yn ymwneud â Gofal (yn arwain at ffactorau chwyddiant dros dro o 8.87% ar gyfer Gofal Cartref / Byw â Chymorth, 9.13% ar gyfer Gofal Preswyl ac

11.15% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol);
- Cartrefi Preswyl – adolygiad pennu ffioedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd;
- Taliadau Uniongyrchol;
- Plant sy’n Derbyn Gofal; a;
- Gofal Cartref.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod darparu ar gyfer chwyddiant mewn cyflogau hefyd yn ffactor arwyddocaol a amcangyfrifir yn £3.4m, ac nid oes cytundeb ffurfiol eto ar brif ddyfarniad cyflog 2021/22. Ar ôl ystyried y cyllid posibl sydd ar gael, gellir cyflawni cyllideb gytbwys.

Mabwysiadwyd ffordd gorfforaethol o ymdrin â cholledion a chostau net COVID19, yn hytrach na bod yn rhaid i bob gwasanaeth ysgwyddo symiau y gellir eu priodoli i wasanaethau perthnasol. Mae’r dull hwn o weithredu wedi sicrhau bod rheolaeth ariannol cyllidebau 2021/22 a gweithgarwch busnes fel arfer wedi parhau’n gryf. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y costau caledi a’r incwm a gollir yn dod i gyfanswm gros o ychydig dan £7m gyda chymaint â phosibl yn cael ei adennill a’i adhawlio drwy grantiau/arian Llywodraeth Cymru.

Bydd costau ychwanegol yn sgil COVID-19 a rhywfaint o incwm coll yn parhau i gael eu gweld i mewn i’r flwyddyn 2022/23 a thu hwnt ac felly mae angen cyllideb gorfforaethol o £750k o fewn cyllideb y Grŵp Arweiniol, yn ogystal â defnyddio’r gronfa wrth gefn a glustnodwyd gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn COVID-19 a amcangyfrifir i fod yn £1.25m. Nid oes unrhyw geisiadau am grant yn ddyledus y flwyddyn nesaf gan y bydd y Gronfa Galedi yn cau ac mae'r Setliad bellach yn caniatáu ar gyfer hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i barhau i gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol am ddim ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyhyd ag y bo angen ac i barhau i ddarparu cyllid ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu.

Mae angen cynyddu Treth y Cyngor i ariannu sefyllfa’r gyllideb yn llawn. Mae 4.75% ychwanegol o Dreth y Cyngor yn codi £2.1m gros, sy'n cyfateb i £1.8m net ar ôl darparu ar gyfer angen ychwanegol y gyllideb a roddir ar gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae polisi adennill Incwm a chostau’r Cyngor yn golygu bod gwasanaethau’n parhau i adennill eu costau chwyddiannol sy’n berthnasol i wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt gan ddefnyddwyr gwasanaethau, er mai’r broblem ar hyn o bryd yn y tymor agos yw sicrhau bod ffrydiau incwm yn cael eu hadennill i lefelau cyn Covid-19.

Eglurodd yr Arweinydd gan mai cynnig cyllideb ddrafft yw hwn, yn seiliedig ar y setliad Dros Dro, mae’n destun unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen unwaith y bydd y Setliad Terfynol yn hysbys. Byddai unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud yn unol â’r canlynol:

1. bydd gwerth unrhyw grantiau penodol a drosglwyddir i’r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu pasio ymlaen at gyllideb y Gwasanaeth perthnasol;
2. bydd unrhyw newidiadau penodol eraill yn cael eu targedu’n uniongyrchol at y Gwasanaeth(au) yr effeithir arnynt, os bydd hynny’n briodol; ac
3. ymdrinnir ag unrhyw newidiadau eraill i’r Grant Cynnal Refeniw drwy addasu cyllideb refeniw gorfforaethol y Grŵp Arweiniol.

Mae Ardoll yr Awdurdod Tân yn amodol ar gadarnhad ffurfiol a rhagwelir y bydd yn arwain at bwysau o ran cost o £104k, a fydd yn gofyn am gyllid brigdoriad.

Gorffennodd yr Arweinydd ei chyflwyniad gyda chrynodeb o bwysau costau ar draws yr holl wasanaethau/y rhan fwyaf ohonynt, ac ailadroddodd fod yr adroddiad hwn ynghylch y gyllideb yn ymdrin â chyhoeddiad y setliad dros dro gydag argymhelliad i'r Cyngor ar lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23. Mae'r Cyngor i fod i ystyried y gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2022 ar ôl craffu ar y papurau ynghylch y gyllideb a'r cynigion drafft.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Cyngor am gyflwyno'r wybodaeth a diolchodd hefyd i Stephen Johnson, Duncan Hall a Justin Davies a'u tîm o swyddogion am eu gwaith caled wrth baratoi'r adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried.

Yna cyflwynodd yr Aelod Cabinet perthnasol y pwysau costau sy'n effeithio ar yr holl wasanaethau / y rhan fwyaf ohonynt (a ddangosir yn Atodiad B o bapurau'r agenda).

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y cyllidebau ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor (a ddangosir yn Atodiad C yr adroddiad); sef:

- Porth Cymorth Cynnal, Porth Gofal, Porth Cymorth Cynnar
  Roedd Sian Howys, Donna Pritchard ac Elen James yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau. Cyflwynodd yr Aelodau Cabinet, y Cynghorwyr Catherine Hughes ac Alun Williams, y wybodaeth sy'n berthnasol i'w portffolios cabinet.
- Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
  Roedd Alun Williams yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau. Cyflwynodd yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Gareth Lloyd, y wybodaeth sy'n berthnasol i'w bortffolio Cabinet.

Yn ystod y cyflwyniad, manteisiodd y Cynghorwyr Catherine Hughes ac Alun Williams ar y cyfle i ddiolch i'r staff sydd wedi cynnal gwasanaethau hanfodol o dan amgylchiadau heriol iawn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Manteisiodd y Cynghorydd Gareth Lloyd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r staff sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod Ceredigion mor ddiogel â phosibl yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau/pryderon canlynol:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch arian wedi'i neilltuo i foderneiddio Cartrefi Preswyl yr Awdurdod, cadarnhawyd bod arian wedi'i neilltuo ar gyfer uwchraddio Cartrefi Preswyl fel y nodwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddangosir yn Atodiad A, tudalen 62 o bapurau'r agenda;
- Yn dilyn cwestiwn ynghylch costau Gofal Cartref, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Arwyn Morris, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, wrthi'n

archwilio opsiynau ar gyfer y model gorau ar gyfer Gofal Cartref i Geredigion ar hyn o bryd;

- Atgoffodd Aelod o'r Pwyllgor bawb a oedd yn bresennol am Gronfa Gofal Iechyd Parhaus y GIG sydd ar gael drwy asesiad;
- Cafwyd trafodaeth hir ynghylch buddsoddiad newydd arfaethedig yn y gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd, a ddangosir yn Atodiad C, tudalen 73 o bapurau'r agenda fel a ganlyn:
  **Mae pwysau sylweddol ar y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd o ganlyniad i'r Pandemig parhaus. Yn benodol, mae llawer o dasgau statudol beichus wrth ymateb i achosion mewn lleoliadau gofal preswyl ac ysgolion o ran rheoli heintiau a rhoi cyngor arbenigol a chyfarwyddyd ynghylch rheoli clystyrau ac achosion. Mae buddsoddiadau ychwanegol yn costio ond gall hyn fod yn rhan o drafodaethau'r Aelodau ynghylch y 3 opsiwn gwahanol y mae'r Cabinet yn edrych arnynt o ran Treth y Cyngor. Er enghraifft, byddai £55,000 yn ariannu'n fras 1 swydd ychwanegol Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd.**
  Cydnabu Aelodau'r Pwyllgor y swydd amhrisiadwy hon a'r gwaith statudol a wneir gan y Gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, teimlai rhai Aelodau fod prinder staff ar draws gwasanaethau eraill o fewn yr Awdurdod ac felly ni allent gefnogi hyn. Teimlai Aelodau eraill o'r Pwyllgor fod hwn yn weithgaredd eithriadol o bwysig o ystyried y pandemig Covid parhaus, ac roeddent yn gefnogol iawn o'r rôl hon.
- Yn dilyn cwestiwn ynghylch swyddi gwag ar gyfer staff gofal cymdeithasol sy'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd ac a yw'r cyllid ar gyfer y swyddi eisoes wedi'i gyfrif yn y Gyllideb hon ai peidio, cadarnhawyd bod y swyddi gwag a hysbysebir wedi cael eu cyfrif yn y Gyllideb hon.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau Cabinet am gyflwyno'r wybodaeth a diolchodd i'r swyddogion am y wybodaeth.

Yna cyflwynodd yr Aelod Cabinet a'r swyddog perthnasol y Ffioedd a'r Taliadau arfaethedig fel yr amlinellwyd yn Atodiad D, tudalennau 1 i 13 ym mhapurau'r agenda.

Yna rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau, a gafodd eu hateb yn eu tro gan yr Aelod Cabinet neu'r Swyddog perthnasol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd, yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion am y wybodaeth a dderbyniwyd yn y cyfarfod, a gofynnodd i Aelodau'r Pwyllgor bleidleisio yn eu tro a ydynt yn derbyn, yn erbyn, neu'n ymatal rhag pleidleisio ar yr argymhellion canlynol:

1. Ystyried y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf cyffredinol a gynigir.
2. Ystyried y pwysau costau amcangyfrifedig a wynebir (£13.173m ar draws pob agwedd).
3. Ystyried y ffioedd a'r taliadau arfaethedig a'r incwm ychwanegol o £155k a amcangyfrifir i helpu gyda'r Arbedion sydd eu hangen.

4. Nodi'r Targed Arbedion Teithio arfaethedig o £230k ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.
5. Nodi'r Balans Arbedion o £113k y mae angen dod o hyd iddo o hyd.
6. Ystyried y 3 opsiwn a gynigir ar gyfer lefel Treth y Cyngor, sef 4.75%, 5.0% a 5.25%.
7. Darparu unrhyw adborth priodol arall sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft i'r Cabinet.

**Argymhellion:**

Ar ôl ystyried, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:

1. **CYMERADWYO**'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf cyffredinol a gynigir;
2. **CYMERADWYO**'r Pwysau Costau amcangyfrifedig;
3. **CYMERADWYO**'r Ffioedd a'r Taliadau arfaethedig fel yr amlinellir yn atodiad D, atodiad 2 o bapurau'r agenda, (tudalennau 1-13 o 51) yn amodol ar ystyried cynnwys y canlynol ar dudalen 9 o 51 mewn perthynas â'r ffioedd ar gyfer Canolfannau Lles,

   Canolfannau Lles – Pecynnau Aelodaeth Ceredigion Actif, Porth Cymorth Cynnar:

   **Cytuno i ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet ar gyfer Porth Gofal, Ymyrraeth Gynnar, Canolfannau Lles a Diwylliant, i amrywio'r Ffioedd a'r Taliadau ar gyfer y Canolfannau Lles ar gyfer 2022/23, i gynnig cynigion arbennig tymor byr / am gyfnod cyfyngedig, er mwyn cymell mwy o blant, pobl ifanc, unigolion a theuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd a dilyn ffordd iachach o fyw.**

   *Cytunwyd y byddai manylion pellach mewn perthynas â'r uchod yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y pwyllgor ar 16 Mawrth 2022.*

4. **CYTUNO** nodi'r Targed Arbedion Teithio arfaethedig o £230k ar gyfer Swyddogion ac Aelodau;
5. **CYTUNO** nodi'r Balans Arbedion o £113k y mae angen dod o hyd iddo o hyd;
6. **CYMERADWYO**'r cynnydd arfaethedig o 4.75% ar gyfer lefelau Treth y Cyngor, gan nodi:

- Ystyriodd yr Aelodau'r 3 opsiwn a gynigiwyd ar gyfer lefelau Treth y Cyngor, sef 4.75%, 5.0% a 5.25%.
- Cynigiwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd ar 4.75%. Cynigiwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd ar gynnydd o 5.0% hefyd.
- Nid oedd aelodau'r Pwyllgor am ystyried 5.25%.
- Pleidleisiodd y Pwyllgor ar y gwelliant yn gyntaf, sef cynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor gyda'r cyllid ychwanegol yn darparu ar gyfer swydd Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ychwanegol, byddai £55k yn

ariannu hyn yn fras, fel yr ystyriwyd ac a nodwyd uchod ar dudalen 4 a 5 o'r cofnodion hyn.

- Pleidleisiodd 7 Aelod o'r Pwyllgor *yn erbyn* y cynnig hwn, gyda 5 yn pleidleisio *o blaid*.
- Yna pleidleisiodd y Pwyllgor ar y cynnig cychwynnol o gynnydd o 4.75% yn Nhreth y Cyngor.
- Pleidleisiodd y rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 4.75% ar gyfer lefelau Treth y Cyngor gyda 7 Aelod o'r Pwyllgor yn pleidleisio *o blaid*, a 5 yn *ymatal* rhag pleidleisio.
- Felly byddai'r Pwyllgor yn argymell cynnydd o 4.75% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2022-2023.

7 **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

**CYTUNWYD** cadarnhau bod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2022 yn rhai cywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi ohonynt.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor, yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion am fynychu a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 16 Mawrth 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol